COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS DYDD LLUN, 5 MEDI 2022, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | P Davies | S J Griffiths |
| M L Hughes | M Jones | RL Penhale-Thomas | T Thomas |
| G Walter | AJ Williams | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

18. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Heidi Bennett, Paul Davies a Graham Walter y byddai angen iddynt adael y cyfarfod yn gynnar.

Swyddogion
Laura Kinsey – Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant
Andrew Thomas – Rheolwr Grŵp, Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

Gwahoddedigion
Y Cynghorydd Rhys Goode – Aelod Cabinet dros Lesiant a'r Dyfodol

Ymddiheurodd y Cynghorydd Jon-Paul Blundell y byddai angen iddo adael y cyfarfod yn gynnar.

19. DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Heidi Bennett fuddiant personol yn eitem 3 ar yr agenda gan ei bod yn cael ei chyflogi gan sefydliad sy'n darparu cymorth atal a lles mewn cysylltiad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

20. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021/22 Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad drwy gymeradwyo'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ar ei harweinyddiaeth ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gweithlu drwy gydol yr heriau yr oeddent wedi'u hwynebu a mynegi ei diolch i'w Swyddogion a oedd wedi bod yn arloesol ac yn rhagweithiol.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Adroddiad Blynyddol 2021 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Pwyllgor, iddo graffu arno cyn i'r Cyngor ei ystyried ar 20 Medi 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a thrafododd yr Aelodau y canlynol:

- Y prif agweddau ar y gwasanaeth sy'n cael eu dangos yn yr adroddiad ynghylch y cydbwysedd rhwng staff asiantaeth a staff y cyngor, y costau drwyddi draw, trosiant staff yn y dadansoddiad ar draws gwahanol rannau o'r gwasanaeth a nifer y swyddi gwag agored.

- Cynlluniau sydd ar waith, gan gynnwys gweithio gyda Choleg Pen-y-bont ar Ogwr, dod â phobl o wahanol sectorau i mewn, datblygu eu gweithwyr cymdeithasol eu hunain, recriwtio rhyngwladol, edrych ar sut i droi gweithwyr asiantaeth yn weithlu parhaol a cheisiadau am bolisi ychwanegu marchnad ym maes gofal cymdeithasol plant.

- Eglurhad bod y pwysau'n allanol ac yn broblem i Gymru gyfan.

- Sut roedd y digwyddiad tyngedfennol y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad wedi cael ei sbarduno gan y sefyllfa y canfu y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ei hun ynddi yn flaenorol, a'r broses ar gyfer hynny.

- Y cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth a phryder ynghylch nifer yr asesiadau sy'n cael eu cynnal a'r cynnydd sylweddol yn y galw.

- Rhyddhau o'r ysbyty a lefelau uchel o absenoldeb staff yn fewnol, p'un a oedd Gofal a Thrwsio yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial, y ganolfan ryddhau newydd yn yr ysbyty a gyflwynwyd yn ddiweddar gyda Gofal a Thrwsio yn eistedd ochr yn ochr â'u gweithwyr cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyswllt Rhyddhau a mân addasiadau.

- Enghreifftiau o sut y cafodd arferion gorau awdurdodau lleol eraill eu hymgorffori yn dilyn Arolygiad Sicrhau Ansawdd Arolygiaeth Gofal Cymru, i leihau ymhellach yr angen am ymyriadau statudol. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau ym maes atal, Cydlynwyr Ardal Leol, sgyrsiau gyda chydweithwyr yn Sir Gaerfyrddin am gontractau, cerbydau trydan a goresgyn rhwystrau, sgyrsiau ag awdurdodau a oedd wedi rhoi'r Model Arwyddion Diogelwch ar waith, buddsoddiad mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a gweithio gyda Phartner Gwella o'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus.

- Modelau gweithredu sy'n cael eu hystyried wrth symud ymlaen, yr angen am fodel cymorth amlasiantaeth, gweithredu modelau ymarfer ystyriol o drawma (oherwydd cymhlethdod y plant y mae angen darpariaeth breswyl arnynt), gan edrych ar sut y gellid ei adlewyrchu yn y Cynllun Arwyddion Diogelwch, a gweithio integredig gydag Iechyd a'r Trydydd Sector.

- Casgliadau ac argymhellion y Bwrdd Gwella Canlyniadau i Blant hyd yma.

- Y lefelau uchel o absenoldeb staff mewn gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion mewnol a briodolir i straen cyhyrysgerbydol neu straen nad yw'n gysylltiedig â gwaith.

- Y gostyngiad sylweddol yng nghanran yr asesiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol o 42 diwrnod ar y dangosfwrdd Perfformiad Plant, y pwysau penodol sy'n effeithio ar berfformiad y gwasanaeth a'r ffocws ar wella'r perfformiad meintiol ac ansoddol.

- Lleihau nifer yr oriau o ofal a ddarperir a lliniaru'r angen am gymorth y cyfeirir ato yn y Dangosfwrdd Perfformiad Oedolion.

- Y cyd-destun ynghylch nifer yr ymholiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlen 7 diwrnod a'r rhai dros 7 diwrnod, gyda llawer yn cael eu cwblhau o fewn 8 neu 9 diwrnod a chyfran fawr o atgyfeiriadau diogelu yn cynnwys darparwyr gofal, cydweithwyr Iechyd a'r Heddlu.

- Sut roedd gofalu am fanylder a gwybodaeth gywir drwy'r drefn sicrhau ansawdd o dan y Cynllun Adfer, Ailosod, Adnewyddu ac Adfer Gofal Cymdeithasol, gyda gwybodaeth yn cael ei chofnodi drwy wneud y defnydd gorau posibl o'r system a chyda'r Arolygwyr yn ymgymryd â'u proses sicrhau ansawdd eu hunain.

- Rhesymau am y ganran uchel o blant â phrofiad o ofal a oedd wedi cael tri neu fwy o leoliadau a / neu newid ysgol unwaith neu fwy, a beth oedd yn cael ei wneud am hynny, gan gynnwys:
  - Sefydlu'r Tîm Plant sydd â Phrofiad o Ofal;
  - Pwysau enfawr ar leoliadau preswyl a maethu;
  - Gweithwyr ailuno yn eu lle;
  - Sefydlogi lleoliadau a chefnogi teuluoedd maeth lle'r oedd heriau;
  - Gwasanaeth therapiwtig yn cael ei ddatblygu;
  - Darpariaeth gofal maeth;
  - Rôl gweithiwr cymorth ar gael y tu allan i oriau.

- Yr asesiad cychwynnol a wnaed o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2022-23, gan gynnwys:
  - Sicrhau gweithlu sefydlog;
  - Monitro dyddiol;
  - Y blaenoriaethau i'w datblygu a'u cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol;
  - Seilwaith yn ymwneud â pherfformiad a sicrhau ansawdd;
  - Grwpiau cynllunio newydd;
  - Rhaglen Chweched Nod.

- Cynllun Datblygu ein Staff ein Hunain yn allweddol i lwyddiant hirdymor, a recriwtio staff yn rhyngwladol.

- Gwaith y Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogiad; sicrhau'r mecanwaith ar gyfer estyn allan at eu holl blant sydd â phrofiad o ofal a rhoi cyfle iddynt ymgysylltu a bod yn rhan o'r broses.

- Y gwaith arolwg sy'n cael ei wneud gyda disgyblion ysgolion uwchradd i bennu llinellau sylfaen o ran llesiant ar gyfer adolygiad y Cyngor o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae ac a ellid ei gyflwyno i ysgolion cynradd.

- Y camau nesaf ar y gwahanol safonau ansawdd ac adlewyrchu'r hyn a oedd yn y Cynllun Corfforaethol ac yna yng Nghynllun Busnes y Gyfarwyddiaeth, i'w fonitro gan y Pwyllgor yn y dyfodol.

- Y gwiriadau pwysig a hanfodol y mae angen eu cynnal ar daith pobl o wneud ymholiadau i ddarparu ofal maeth, a gymerodd tua chwe mis, a ffyrdd o wella effeithiolrwydd yr amserlenni hynny.

- Newidiadau a wnaed o ran y flwyddyn gyntaf o ymarfer ar gyfer gweithwyr newydd gymhwyso sy'n ymuno â'r awdurdod lleol, gydag addysgwyr ymarfer yn cysylltu a chyfleoedd rheolaidd i fyfyrwyr sydd newydd gymhwyso ddod at ei gilydd gyda'u

grwpiau cyfoedion, gan sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth, yr oruchwyliaeth a'r trefniadau cynefino cywir o'r diwrnod cyntaf yn y gwasanaeth.

- Y cyfanswm o £12.8m o bwysau cyllidebol a nodwyd ym Mhroses Cyllideb 2023-24, ble'r oedd y pwysau cyllidebol hynny'n eistedd yn y Gyfarwyddiaeth a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau gan y byddai'r diffyg yn bwysau cyllidebol sylweddol ar y Gyfarwyddiaeth.

- Pryderon ynghylch cysoni'r cyllid sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau statudol gydag argaeledd cyllid. Y tri ffactor allweddol sy'n cyfrannu yw'r cynnydd yn yr angen a'r galw, her enfawr o ran y gweithlu, a chynnydd sylweddol yn y gost fesul uned o ddarpariaeth.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r gwahoddedigion, diolchodd i'r gwahoddedigion am eu presenoldeb a dywedodd y gallent adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol:

1. Y dylai'r Adroddiad gynnwys data a graffeg i ddangos effaith pwysau staffio ar y Gyfarwyddiaeth.

2. Y dylai'r Adroddiad gyfeirio at y Gofrestr Risg Gorfforaethol wrth gyfeirio at y Digwyddiad Tyngedfennol a gychwynnwyd yn 2022.

3. Y dylai'r Adroddiad adlewyrchu nid yn unig y cynnydd yn y galw am Ofal Cymdeithasol ond hefyd gymhlethdod a natur yr atgyfeiriadau sy'n cael eu gwneud (yn enwedig ym maes Gofal Cymdeithasol Plant).

4. Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu llythyr, i gefnogi'r Dirprwy Arweinydd, at Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ynghylch pwysau cyllidebol.

a gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

5. Ymateb ysgrifenedig ynghylch y Safonau Ansawdd Oedolion, Plant a Llesiant sy'n rhoi'r manylion diweddaraf/cyfredol ar bob un o'r 'Camau Nesaf' a amlinellir yn yr Adroddiad.

6. Copi o'r llythyr a anfonwyd gan y Dirprwy Arweinydd at Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn sôn am bryderon ynghylch y gweithlu.

7. Gwybodaeth am y Ganolfan Ryddhau yn Ysbyty Tywysoges Cymru a gwybodaeth am sut mae Gofal a Thrwsio yn cefnogi'r Gwasanaeth.

8. Gwybodaeth am y ffyrdd arloesol y mae'r Cyngor yn recriwtio staff.

Cadarnhad p'un a yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu cynnwys plant ysgolion cynradd mewn gwaith arolygu er mwyn pennu llinellau sylfaen llesiant ar gyfer adolygiad y Cyngor o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, fel a wnaed gyda'r plant ysgol uwchradd.

21. Y DIWEDDARAF AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu y Flaenraglen Waith i'r Pwyllgor yn Atodiad A i'w thrafod a'i hystyried. Gofynnodd am i unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor gael ei chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys gwahoddedigion yr oeddent yn dymuno iddynt fod yn bresennol. Gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.3.

Dywedodd hefyd fod y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion wedi'i hatodi fel Atodiad B i olrhain ymatebion i Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor mewn cyfarfodydd blaenorol.

Gofynnodd yr aelodau am i'r adroddiad ar y Cynnydd ar Berfformiad Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, gan gynnwys y trefniadau cefnogi a ddarperir gan adroddiad Castell-nedd Port Talbot, gael ei drefnu cyn gynted â phosibl.

Cyfeiriodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu at yr eitem sydd eisoes wedi'i rhestru ar y Flaenraglen Waith yn Atodiad A a dywedodd y byddai ymateb ysgrifenedig ar ddatganiad sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddarparu gan Swyddogion cyn bo hir ac y byddai'r adroddiad wedyn yn dilyn.

Gofynnodd yr aelodau am adroddiad ar yr argyfwng tai, gan edrych yn benodol ar ddull partneriaeth a gwahodd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), Landlordiaid Preifat a Swyddogion Tai'r Awdurdod.

Gofynnodd yr aelodau i'r Swyddogion Craffu edrych ar amserlennu'r adroddiadau canlynol ar y Flaenraglen Waith gan ystyried argaeledd y gwahoddedigion allweddol:

- Cyflawni'r Cynllun Taliad Costau Byw;
- Recriwtio a Chadw'r Gweithlu;
- Gwahoddedigion LCC ar gyfer Eiddo Gwag, Tai a Digartrefedd.

Ni nodwyd unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.3 a gellid edrych eto ar hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol mewn adroddiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar yr ychwanegiadau a'r ceisiadau uchod a nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol, yn Atodiad B.

22. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:27